**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (HWLFFORDD, SIR BENFRO) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2013 (O.S. 2013/2507 (Cy.246)) yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig. Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2018 (O.S. 2018/941 (Cy.185)) yn cael ei amrywio gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 27 Mawrth 2024 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, y plan a'r Gorchmynion sy'n cael eu dirymu neu eu haddasu, yn rhad ac am ddim, yn swyddfeydd Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd SA61 1TP.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2018045.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2018045, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod erbyn 17 Ebrill 2024.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei darparu i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych am i'ch data personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi hyn wrth gyflwyno eich

**THE A40 TRUNK ROAD (HAVERFORDWEST, PEMBROKESHIRE) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 40 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

The A40 Trunk Road (Narberth Road and Fishguard Road, Haverfordwest, Pembrokeshire) (40 mph Speed Limit) Order 2013 (S.I. 2013/2507 (W. 246)) will be revoked by the proposed Order. The A40 Trunk Road (Haverfordwest, Pembrokeshire) (40 mph & 50 mph Speed Limits and Derestriction) Order 2018 (S.I. 2018/941 (W. 185)) will be varied by the proposed Order.

During a period of 21 days from 27 March 2024 a copy of the proposed Order, the Statement of Reasons for making the Order, the plan and the Orders being revoked and varied may be inspected, free of charge, at the offices of Pembrokeshire County Council, County Hall, Haverfordwest SA61 1TP.

The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch at the address below, quoting reference number qA2018045.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA2018045, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to the address below by 17 April 2024.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for your personal data to be forwarded to third parties, you should state this

gohebiaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu ac os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y plan a'r Datganiad o Resymau, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2018045.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell, Hwlffordd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell, Hwlffordd hyd at bwynt 287 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell, Hwlffordd hyd at bwynt 724 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell, Hwlffordd hyd at bwynt 235 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

when submitting your correspondence. The Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice, the Order, plan and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA2018045.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The circulatory carriageway of Scotchwell Roundabout, Haverfordwest.

The length of the trunk road that extends from its junction with the western side of the circulatory carriageway of Scotchwell Roundabout, Haverfordwest to a point 287 metres west of that junction.

The length of the trunk road that extends from its junction with the eastern side of the circulatory carriageway of Scotchwell Roundabout, Haverfordwest to a point 724 metres east of that junction.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of the circulatory carriageway of Scotchwell Roundabout, Haverfordwest to a point 235 metres north of that junction.